

Cyngor Sir Ynys Môn	
<b>CYFARFOD:</b>	Cyngor Sir
<b>DYDDIAD:</b>	12 Medi 2023
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	Penodi aelod etholedig ar y Pwyllgor Safonau
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	I'r Cyngor benodi aelod etholedig ar y Pwyllgor Safonau
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a>

#### A. Cefndir:

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol ac mae'n gyfrifol am hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr sir Ynys Môn ac aelodau'r cynghorau cymuned yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys helpu cynghorwyr i ddilyn y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.
2. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn 9 aelod (2 gynghorydd sir, 5 aelod annibynnol a 2 aelod o'r cynghorau tref a chymuned). Mae'n ofyn deddfwriaethol bod y pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o'r tri categori yma ymysg ei aelodaeth gyda mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn aelodau annibynnol.
3. Mae manylion y pwyllgor a'i aelodaeth cyfredol ar gael [yma](#).
4. Mae proses er mwyn llenwi sedd wag achlysurol ymysg aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Bydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau'n cyfarfod yn fuan er mwyn cyfweld yr unigolion sydd wedi eu dewis ar y rhestr fer. Mae'r Panel Dethol yn cynnwys aelod annibynnol, cynrychiolydd y cynghorau tref a chymuned yn yr ardal a thri Chynghorydd Sir (Cynghorwyr Aled Morris Jones, Dylan Rees a Margaret Murley Roberts). Penderfyniad y Cyngor llawn fydd i benodi ar sail argymhelliad y Panel Dethol. Bydd hyn yn destun adroddiad gerbron y Cyngor maes o law.
5. Cyflwynir yr adroddiad hwn gerbron y Cyngor Sir oherwydd fod sedd wag wedi codi ar y pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad un Cynghorydd Sir.

#### B. Penodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau:

1. Y broses ar gyfer penodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau ydi drwy benderfyniad y Cyngor llawn.

2. Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau,

- a. Nid yw'n bwyllgor sy'n denu cydbwysedd gwleidyddol;
- b. Ni chaniateir mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith i gynrychioli'r aelodau etholedig ar y Pwyllgor Safonau.

Mae'r Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff ar y Pwyllgor Gwaith, eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ac felly ni ellir penodi aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith y tro hwn.

- c. Ni chaniateir i Arweinydd y Cyngor fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau.
3. Bydd cyfnod y penodiad yn 4 mlynedd neu hyd nes yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer awdurdodau lleol, pa bynnag un sydd gynharaf.
4. Ceir ail-benodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau am un tymor dilynol pellach.

### **C. Penderfyniad:**

1. Bod y Cyngor yn enwebu aelod etholedig o'r Cyngor Sir, nad ydynt yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, fel aelod o'r Pwyllgor Safonau.